Cymdeithas y Beibl

Gorffennaf – Hydref 2021

Gweddi ar Waith

Gweddïwch gyda Chymdeithas y Beibl

Gjergj, Bruna ac Altin o Gymdeithas y Beibl Ryng-gyffesol Albania yn dathlu cyfieithiad o'r Salmau



Diolch yn fawr am eich gweddïau a'ch cefnogaeth. Rydych chi'n gwneud gwahaniaeth anhygoel i fywydau pobl ledled y byd ac rydyn ni mor ddiolchgar amdanoch chi! Ym mis Gorffennaf ac Awst gadewch inni weddïo dros waith cyfieithu'r Beibl ledled y byd. Mae cyfieithu'r Beibl yn cymryd amser, hyfforddiant ac ymrwymiad gan dimau sy'n ymroddedig i ddarparu'r Beibl yn iaith y galon pobl yn eu cymunedau a'u gwledydd.

Felly y mae fy ngair sy'n dod o'm genau; ni ddychwel ataf yn ofer, ond fe wna'r hyn a ddymunaf,
a llwyddo â'm neges.
Eseia 55.11 (BCND)

Gorffennaf

Ermira wrth ei bodd gyda'i Beibl Albaneg newydd

4 – 10 Gorffennaf

Albania – cyfieithiad o'r Beibl wedi'i gwblhau
Diolchwch am gwblhau'r Beibl Albaneg ar ôl 20 mlynedd o waith caled ac ymrwymiad gan y tîm cyfieithu. Gweddïwch am i eiriau newidiol y Beibl gael effaith ar galonnau pobl yn Albania. Gweddïwch am fendith Duw ar Altin Hysi, Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas y Beibl Ryng-gyffesol Albania, a'i dîm bychan sy'n gweithio'n hynod o galed i rannu gair Duw yn eu gwlad.

11 – 17 Gorffennaf

eSwatini – Beibl astudio SiSwati
Diolchwch fod Testament Newydd Beibl Astudio SiSwati wedi'i gwblhau a'i dderbyn yn llawen. Gweddïwch dros y cyfieithiad o'r Hen Destament y mae Cymdeithas y Beibl yn eSwatini yn anelu at ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2022. Eu gweddi yw y bydd y Beibl Astudio a gynhyrchir yn helpu i fynd i'r afael â diffyg dealltwriaeth o'r Beibl ymhlith y mwyafrif o boblogaeth y wlad, sy'n arwain at arlliw syncretiaeth o fewn cenedl y Swazi.

Mae'r Beibl Astudio wedi'i dargedu'n arbennig at arweinwyr eglwysig a'u cynulleidfaoedd a'i ddefnyddio ar gyfer astudiaeth ddyfnach o air Duw i helpu cymhwyso egwyddorion Beiblaidd. Mae Cymdeithas y Beibl yn eSwatini wedi gofyn inni weddïo am newid agwedd at bechod ac am gymdeithas fwy moesol o ganlyniad i fwy o gymhwyso gwerthoedd beiblaidd yn eSwatini.

18 – 24 Gorffennaf

Mali – Beibl Astudio yn Bamanan
Mae'r iaith Bambara yn cael ei siarad gan dros 4.7 miliwn o bobl ym Mali (mae 260,000 ohonyn nhw'n Gristnogion Protestannaidd).
Mae'r tîm ym Mali wedi gofyn inni weddïo drostynt: 'Gadewch inni ofyn i Dduw fendithio'n helaeth holl weithwyr a phartneriaid y prosiect. Gadewch inni weddïo bob amser dros sefydlogrwydd gwleidyddol a diogelwch ym Mali. Gweddïwch fod pob Cristion yn cael ei wreiddio yng ngair Duw a thros ymrwymiad yr eglwysi yn wyneb erledigaeth ac ymosodiadau.'

25 – 31 Gorffennaf

Togo – Hen Destament Cyntaf Kabiyè
Mae cyfieithiad rhyng-gyffesol yr iaith Kabiyè yn Togo ar y gweill. Yn 2012, lansiwyd y Testament Newydd Dwyieithog Kabiyè-Ffrangeg ac yn awr mae Cristnogion yn aros yn eiddgar am y Beibl cyflawn.

Mae'n rhaid i'r boblogaeth darged allu darllen a deall cyfieithiad o'r Beibl. Er mwyn paratoi'r boblogaeth hon i ryngweithio'n well â gair Duw, bydd Cymdeithas y Beibl Togo yn cysylltu cyfieithu â'u rhaglenni llythrennedd i helpu pobl sy'n siarad Kabiyè i ddarllen a deall y Beibl yn iaith y galon.

Mae Cymdeithas y Beibl Togo wedi gofyn inni weddïo drostynt: 'Gweddïwch dros y cyfieithwyr a'u teuluoedd, bydded i'r Arglwydd roi iechyd da iddynt. Gweddïwch am gefnogaeth i'r prosiect gan eglwysi a chymdeithasau a gweddïwch i'r prosiect gael ei gwblhau o fewn y dyddiad targed.'

Awst

Merched gyda chopïau o'r Testament Newydd Epie cyntaf yn ei lansiad yn ne Nigeria.

Ffotograffiaeth gan Benjamin Mordi

Parhewch i weddïo dros brosiectau cyfieithu ledled y byd.

Ar ôl hyn edrychais, ac wele dyrfa fawr na allai neb ei rhifo, o bob cenedl a'r holl lwythau a phobloedd ac ieithoedd, yn sefyll o flaen yr orsedd ac o flaen yr Oen, wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, a phalmwydd yn eu dwylo. Datguddiad 7.9 (BCND)

1 – 7 Awst

Nigeria – Cyfieithiad Epie o'r Hen Destament
Diolchwch fod pobl Ogbia ac Epie yn Nigeria wedi derbyn y Testament Newydd yn llawen yn eu mamiaith. Nodweddwyd cysegriad y ddau Destament Newydd yn 2020 gyda chyffro, mawl i Dduw a dathliadau llawen.

Dywedodd Miss Abraham Montgomery a dderbyniodd y TN Epie, 'Rwy'n llawn cyffro. Rwyf wedi bod yn gweddïo ac yn disgwyl am y diwrnod hwn. Mae gan yr Urhobos a phobl ieithoedd eraill yn y dalaith agosaf y Beibl yn eu mamiaith. Rwy'n hapus bod gennym ni ein un ni nawr. Nid dymuniad na breuddwyd mohono bellach, ond realiti. Gall ein gweinidogion nawr bregethu a chynnal astudiaethau Beiblaidd yn ein hiaith.'

Gweddïwch dros y tîm cyfieithu sydd bellach yn dechrau cyfieithu'r Hen Destament i Epie.

8 – 14 Awst

Twrci – Diwygio'r Beibl Twrceg
Ar hyn o bryd mae dau gyfieithiad o'r Beibl i'r Twrceg y mae Cymdeithas y Beibl Twrci yn parhau i'w cyhoeddi a'u dosbarthu. Yr Hen Gyfieithiad (1941) yw'r un mwyaf ffyddlon i'r testunau gwreiddiol trwy ei hen eirfa a'i gystrawen. Fodd bynnag, nid oes ganddo atalnodi modern, cystrawen Twrceg fodern ac weithiau mae'n anodd ei ddeall oherwydd yr hen eiriau (Otomanaidd).

Mae'r Cyfieithiad Newydd (2001) yn targedu'r gynulleidfa nad yw'n Gristnogion ac fe'i cyfieithwyd i iaith bob dydd. Fe'i defnyddir yn helaeth yn Nhwrci. Fodd bynnag, nid yw'n ateb angen y rhai sy'n ei gymharu â chyfieithiadau mewn ieithoedd eraill a'r testunau gwreiddiol. Tra bydd eglwys Twrci yn tyfu, bydd cynnydd mewn gweinidogion ac ysgolheigion Beiblaidd ac mae Cymdeithas y Beibl Twrci yn derbyn llawer o geisiadau am gyfieithiad newydd sy'n targedu'r gynulleidfa Gristnogol ac yn dod yn arweiniad go iawn i ddyfnhau gwybodaeth Feiblaidd.

Gweddïwch dros y tîm cyfieithu yn Nhwrci wrth iddyn nhw ddechrau'r dasg enfawr o greu fersiwn newydd diwygiedig o'r Beibl. Gweddïwch dros eu mewnwelediad, eu hamynedd a'u hymrwymiad i'r prosiect hwn ac i'r cyfieithiad newydd gael effaith ar fywydau pobl yn Nhwrci.

15 – 21 Awst

Burkina Faso - Cyfieithiad Bissa o'r Hen Destament a fersiwn diwygiedig o'r Testament Newydd
Mae bron i 800,000 o bobl yn siarad Bissa gydag o leiaf 500,000 yn Burkina Faso (yn ne canol y wlad), 165,900 o bobl yn siarad Bissa yn Ghana a thua 3,000 yn Togo a Côte d'Ivoire. Cyhoeddwyd y Testament Newydd yn yr iaith hon er 2000 ac mae'r angen i gyfieithu'r Hen Destament i gwblhau'r Beibl hwn yn hynod o bwysig.

Mae Cymdeithas y Beibl yn Burkina Faso wedi gofyn inni weddïo dros gwblhad y prosiect hwn yn llwyddiannus fel y gallant wasanaethu'r Eglwys yn Burkina Faso, darparu eu Beibl rhyng-gyffesol i'r bobl, cyfrannu at dwf ysbrydol yr Eglwys ac estyn allan at rhai nad ydyn nhw'n Gristnogion.

22 – 28 Awst

Burkina Faso - Cyfieithiad Lyélé o'r Hen Destament a fersiwn diwygiedig o'r Testament Newydd
Mae Lyélé yn cael ei siarad gan fwy na 210,000 o bobl yn Burkina Faso. Diolchwch am gwblhau'r Testament Newydd sydd wedi'i gyhoeddi yn yr iaith hon er 2001 ac sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth. Nod y prosiect cyfredol yw gwasanaethu'r Eglwys yn ardal Lyélé trwy gyfieithu'r Hen Destament a'r Dewteroganonaidd ynghyd â diwygio'r Testament Newydd presennol. Gweddïwch dros y tîm cyfieithu wrth iddynt gyflawni'r gwaith hwn, am galondid, amynedd ac ysbrydoliaeth.

Medi

Photography by Jack Sharp on Unsplash

Gweddïau yn y pandemig
Roedd 2020 yn flwyddyn na welwyd mo'i thebyg o'r blaen ac ar hyn o bryd mae 2021 yn dilyn yr un llwybr. Rydyn ni wedi creu coeden weddi ar-lein i bobl ychwanegu deilen weddi i godi'r digwyddiadau hanesyddol rydyn ni'n dyst iddyn nhw mewn gweddi at Dduw, gan gynnwys gweddïau gan arweinwyr eglwysig.

Byddwn yn llunio ac yn rhyddhau llyfryn yn cynnwys detholiad o'r gweddïau. I gyfrannu eich gweddi eich hun ac i ddarganfod mwy ewch i biblesociety.org.uk/pandemicprayers
Ym Medi a Hydref gadewch inni weddïo gyda'r rhai sydd wedi ysgrifennu eu gweddïau dros y pandemig.

Gwaeddais ar yr ARGLWYDD yn fy nghyfyngder, ac atebodd fi.
Salm 120.1 (BCND)

28 Awst – 4 Medi

Arglwydd Dduw, gyda'n holl galon yr ydym yn ymbil arnat ti: trugarha wrth dy bobl; arbed dy bobl; nertha pawb yn y frwydr yn erbyn dinistr y pandemig hwn. Arglwydd ein Duw, hebot ti rydym mor wan a'n dewrder mor gyfyngedig. Rho inni dy nerth; rho dy gariad inni; rho ddoethineb a gallu inni barhau â'r frwydr hon. Arbed dy bobl, O Arglwydd gweddïwn. Cysura'r rhai sy'n galaru a chasgla i'th deyrnas bawb sydd wedi marw. Gwnawn y weddi hon trwy Grist ein Harglwydd, a fu farw ac a atgyfododd, sy'n byw ac yn teyrnasu gyda thi, yn oes oesoedd. Amen
Cardinal Vincent Nichols
Archesgob Westminster
Is-lywydd Cymdeithas y Beibl

5 – 11 Medi

Duw Hollalluog, y dioddefodd dy Fab Iesu Grist drosom ar y Groes fel y gallem gael bywyd tragwyddol, bydd yn bresennol gyda ni yn ein dioddefaint wrth inni oddef y pandemig. Bydd yn bresennol i'r rhai sy'n wael; bydd yn bresennol i'r rhai sy'n marw; bydd yn bresennol i'r rhai mewn profedigaeth. Gwyddom y bydd popeth yn dy gariad yn cael ei wneud yn gyfan. Cryfha ynom y gobaith hwnnw a ddaw yn unig o ffydd yn dy gariad di-ffael.
Hyn a ofynnwn trwy dy Fab ein Gwaredwr Iesu Grist, sy'n teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw hyd byth. Amen.
Y Parchedicaf Justin Welby
Archesgob Caergaint

12 – 18 Medi

Dad Nefol,
Diolchwn i ti ar bob achlysur, ym mhob cyflwr ac am bob peth.
Gofynnwn i ti dderbyn i ti dy hun dy blant sydd wedi gadael y byd hwn a chysuro'r rhai sy'n galaru am eu colled.
Gofynnwn hefyd am dy law iachaol ar y rhai sydd dal yn wael, yn gwella, neu'n gorfod byw gydag effeithiau'r salwch hwn am flynyddoedd i ddod.
Gofynnwn am dy fendith, ein Gwir Feddyg, ar y rhai sydd wedi gwasanaethu'n anhunanol ac yn ddiflino trwy gydol y pandemig; y byddi di'n eu gwobrwyo.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas, y nerth, a'r gogoniant, hyd byth.
Amen.
Ei Arucheledd Archesgob Angaelos
Archesgob Uniongred Coptaidd Llundain
Llywydd Cymdeithas y Beibl

19 – 25 Medi

Diolch Arglwydd na ellir diffodd golau dy gariad hyd yn oed yn y sefyllfaoedd tywyllaf. Rydym wedi cael eleni yn yn flwyddyn ryfedd ond serch hynny rydym wedi gallu cydnabod dy fod yn ein herio i gefnogi'r rhai sy'n cael bywyd yn arbennig o anodd ar hyn o bryd. Atgoffa ni fod ein cymdogion nid yn unig 'lawr ein stryd' ond 'ledled y byd' wrth i ni geisio lledaenu golau dy gariad i bawb.
Muriel, Swydd Derby

26 Medi – 2 Hydref

Annwyl Arglwydd, gweddïaf y byddaf yn clywed yr hyn a ddywedi wrth inni ddarllen dy air heddiw. A chadw fi a fy mrawd a mami a dadi yn ddiogel. Yn enw Iesu, Amen.
Lilah, Cymru

Hydref

Gweddïau yn y pandemig
Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, y Tad sy'n trugarhau a'r Duw sy'n rhoi pob diddanwch. Y mae'n ein diddanu ym mhob gorthrymder, er mwyn i ninnau, trwy'r diddanwch a gawn ganddo ef, allu diddanu'r rhai sydd dan bob math o orthrymder.
2 Corinthiaid 1.3 – 4 (BCND)

Gweddïaf y bydd Duw yn bendithio pawb sy'n mynd â'r gair i'r carchardai i ddod â chysur a chariad i bawb sydd angen heddwch.
Audrey

Rydyn ni'n byw trwy amseroedd trawmatig, mae dod o hyd i gysur yn y Beibl yn bwysig. Mae gweddïau dros bobl nad ydych erioed wedi cwrdd â nhw yn hanfodol, ond mae ffonio cymydog sydd ar ei ben ei hun yn achubiaeth iddyn nhw ac yn rhoi boddhad i chi. Felly beth am ffonio ffrind neu gymydog annwyl ac efallai gweddïo gyda'ch gilydd.
Jennifer

Arglwydd Iesu Grist, gofynnwn am dy fendith ar bawb sydd wedi cael tynnu'n isel gan y pandemig hwn. Rho nerth a sgil i'r holl staff meddygol ac ymchwil yn eu hymdrechion i oresgyn y firws hwn. Gweddïwn hefyd dros bawb sydd mewn pryder neu unigedd. Arglwydd, yn dy drugaredd, clyw ein gweddi yr ydym yn awr yn ei gwneud yn dy enw anwylaf. Amen.
Anthony

Annwyl Dad Nefol, diolch bod cymaint o bobl wedi derbyn Beiblau trwy waith Cymdeithas y Beibl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bendithia nhw wrth iddyn nhw ddarllen dy air. Llefara eiriau o gysur a heddwch iddyn nhw yn yr amseroedd anodd hyn a boed iddyn nhw wybod dy gariad a'th ofal mewn ffordd real iawn. Er mwyn Iesu, Amen.
Anhysbys

Dduw Dad, gweddïwn dros unigolion sy'n wynebu heriau. Cofiwn am y rhai sy'n wybyddus i ni. Gweddïwn dros y rhai sy'n wael, y rhai mewn profedigaeth ac sydd wedi colli anwyliaid, y bregus, y rhai â phroblemau iechyd meddwl a phawb y mae eu cartref yn lle anhapus, anniogel iddynt, dros y rhai sy'n arbennig o ynysig ac unig a'r rhai â phryderon ariannol. Boed i bob un brofi dy bresenoldeb cysurus ar yr adeg hon. Amen.
Deborah, Great Bookham

Cymdeithas y Beibl, Stonehill Green, Westlea, Swindon SN5 7DG Ffôn: 01793 418222
biblesociety.org.uk Elusen gofrestredig 232759 PR000597